

Rheolau profion TB Gwartheg yn yr Ardaloedd TB Isel a Chanolradd: canllaw i ffermwyr ar y newidiadau o Ebrill 2023.

Os ydych chi'n cadw gwartheg yn yr Ardal TB Isel neu'r ardaloedd TB canolradd yn y Gogledd, dylech wybod am y newidiadau sy'n digwydd i'r profion TB ar **3 Ebrill 2023**. Bydd y prawf cyntaf ar fuchesi cyffiniol (sef y rhai yn ardal y fuches ag achos o TB) a'r prawf ar ôl achos (rhwng 6 a 18 mis ar ôl codi'r cyfyngiadau symud) yn yr ardaloedd uchod yn cael eu darllen gan ddefnyddio'r dehongliad 'llym' yn lle'r dehongliad 'safonol'.

Os na fydd unrhyw wartheg yn cael adwaith i'r prawf cyntaf ar fuches gyffiniol neu'r prawf ar ôl achos, bydd y rheini sy'n cael adwaith amhendant (IRs) yn cael prawf gwaed gama interfferon. Bydd canlyniad hwnnw yn penderfynu beth fydd yn digwydd nesaf yn y fuches. Bydd y profion nesaf ar fuchesi cyffiniol 6 mis, 12 mis a 18 mis ar ôl y prawf cyntaf yn cael eu darllen yn unol â'r dehongliad 'safonol'

Mae'r dehongliad 'safonol' o'r prawf croen yn fwy tebygol o lawer o ddweud bod buwch sydd wedi'i heintio â TB yn glir na rhoi canlyniad positif ffug. Bydd y mesur hwn felly'n helpu i adnabod gwartheg sydd wedi'u heintio â TB.

Map o'r ardaloedd dan sylw (unedau gofodol wedi'u dangos mewn du a choch)

Mesurau Ardal TB

Allwedd



Unedau Gofodol CL1, CL2, CL7, CL8 a GW1

Ciwster Pennal

Unedau Gofodol Cymru

Ardal TB

- Ardal TB Uchel (Dwyrain)
- Ardal TB Uchel (Gorllewin)
- Ardal TB Canolradd (Gogledd)
- Ardal TB Canolradd (Canolbarth)
- Ardal TB Isel



Hefyd, ni fydd profion gwaed ychwanegol yn cael eu cynnal ar rai anifeiliaid na chawsant eu magu ar y fferm a gafodd brofion croen ar ôl 30 Ionawr 2023.